**ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES – 02/07/2019**

**PWNC:** **TREFNIADAU CYLLIDO FFORMIWLA AR GYFER YSGOL GYFUN CWM RHYMNI (DAU SAFLE)**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL DROS ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Amlinellu ac ystyried trefniadau cyllido fformiwla Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â threfniant dau safle presennol yr ysgol (gyda phellter o saith milltir rhwng y ddau safle).

1.2 Ers mis Medi 2017, mae pob grŵp oedran o flwyddyn 7 i flwyddyn 11 yn cael eu dysgu ar y ddau safle. Y flwyddyn academaidd 2017-18 oedd y flwyddyn academaidd gyntaf i'r trefniant yma fod ar waith. Mae dau ddalgylch clir ganddynt, gydag ysgolion penodol yn bwydo safle Gelli Haf (Coed Duon) a safle Gwyndy (Caerffili).

1.3 Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu yn dilyn adroddiad i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion (27 Medi 2018) a gylchredwyd wedyn i'r Holl Benaethiaid (Atodiad 1). Cylchredwyd yr adroddiad ar 30 Tachwedd 2018 gyda chais am adborth erbyn 11 Ionawr 2019.

1.4 Gofynnir am safbwyntiau'r Aelodau Craffu mewn perthynas â threfniadau cyllido dau safle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, yng nghyd-destun maint y ddau safle.

## 2. CRYNODEB

2.1 Yn gryno, mae'r adroddiad yn adolygu safbwynt cyllido presennol Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, ac yn ystyried hyn mewn perthynas ag ysgolion sy'n cydweithio ar hyn o bryd neu'r rhai sy'n cynnig ffederasiwn mwy ffurfiol gan rannu Pennaeth yn y Fwrdeistref.

2.2 Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn y Fwrdeistref. Ym mis Mai 2018, cytunodd y Bwrdd Strategaeth Ysgolion y dylid cynnal ymgynghoriad mewn perthynas â threfniant cyllido dau safle presennol yr ysgol.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i'r aelodau ystyried y canlynol:

- P'un a ddylid diweddaru trefniadau cyllido dau safle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ar ôl ystyried y materion a gyflwynir yng nghorff yr adroddiad hwn.
- Os yw'r Aelodau'n cefnogi newid yn y trefniant cyllido dau safle, ystyried sut dylid cyllido hyn o 2020/21 ymlaen.
- Os yw'r Aelodau'n cefnogi newid yn y trefniadau cyllido o hyn ymlaen, a ddylid ystyried y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran ôl-gyllido? Os felly, sut dylid cyllido'r gost hon?
- Yn amodol ar adborth gan yr Aelodau Craffu, cyflwynir Adroddiad pellach i'r Cabinet ar

gyfer penderfyniad ar y fethodoleg gyllido a ffynonellau cyllid.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Mae'r argymhellion yn cydnabod capasiti pob safle, dau ddalgylch amlwg, gyda phob grŵp blwyddyn o flwyddyn 7 i 11 yn cael eu haddysgu ar y ddau safle ar hyn o bryd. Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yw Ysgol Uwchradd fwyaf y Fwrdeistref o bell ffordd, ac mae'n parhau i dyfu.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn dilyn trafodaethau gydag Ysgol Gyfun Cwm Rhymni mewn perthynas â'r trefniadau cyllido fformiwla presennol fel ysgol â dau safle. Hyd yma, mae'r ysgol wedi cael ei hariannu fel un ysgol, gyda chyfandaliad dau safle ychwanegol. Mae'r dyraniad cyllido fformiwla dau safle yn cydnabod y baich ariannol ychwanegol sydd ar ysgol o ganlyniad uniongyrchol i ddarpariaeth ar ddau safle. Mae amseru'r adroddiad hwn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r ffaith bod dau ddalgylch clir gyda grwpiau blwyddyn 7 i 11 ar y ddau safle ym mis Medi 2017. Mae hyn wedi effeithio ar drefniadau a chostau ar gyfer gweithrediadau dydd i ddydd (Technegwyr / Swyddfa a Derbynfa) a rheoli safle, ynghyd â threfniadau dysgu a chyfrifoldebau rheoli (trefniadau Dirprwy Bennaeth / Pennaeth Cynorthwyol).

5.2 Mae adolygiad o niferoedd y disgyblion ar draws ysgolion uwchradd yr Awdurdod (gan gynnwys 3 i 18, 11 i 16 ac 11 i 19) yn cefnogi'r angen am drafodaeth bellach ar y mater hwn. Mae manylion niferoedd capasiti a niferoedd derbyn ein hysgolion uwchradd (Atodiad 2) yn dangos maint yr ysgol (gan gynnwys manylion y ddau safle) mewn perthynas ag ysgolion uwchradd eraill y Fwrdeistref.

5.3 Yng Nghaerffili ar hyn o bryd, mae gennym nifer o ysgolion cynradd sy'n cydweithio'n llwyddiannus drwy rannu Pennaeth. O safbwynt ariannol yn unig, mae'r dull hwn wedi creu arbedion mewn perthynas â chostau Uwch Reolwyr, sy'n hanfodol i gynaliadwyedd ariannol rhai o'n hysgolion lleiaf. Mewn sefyllfa lle mae dwy ysgol yn cydweithio drwy rannu Pennaeth, caiff y ddwy ysgol eu hariannu ar wahân drwy'r dyraniad cyllido fformiwla, ac felly maent yn derbyn unrhyw gyfandaliadau yn benodol i bob ysgol a nodwyd.

5.4 Yn sefyllfa Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, sef ysgol uwchradd fwyaf y Fwrdeistref o bell ffordd, mae manteision Pennaeth ar draws yr "holl" ysgol eisoes ar waith. Fodd bynnag, mae capasiti'r safleoedd unigol, y ffaith bod dau ddalgylch a bod yr holl grwpiau blwyddyn o flwyddyn 7 i 11 yn cael eu haddysgu ar y ddau safle, yn cefnogi'r angen i adolygu'r fethodoleg gyllido sy'n gysylltiedig â'r lwfans cyfandaliadau.

5.5 Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, mae pob Ysgol yn derbyn nifer o gyfandaliadau yn eu fformiwlâu. Mae tri chyfandaliad sy'n benodol gysylltiedig â'r safle (mae cyfandaliadau bach hefyd sy'n gysylltiedig â rhai o'r dyraniadau SLA):

1. Cyllid sy'n talu am ran o gyflog Pennaeth i ganiatáu am amser digyswllt ar gyfer tasgau rheoli a chostau arwain yn yr ysgol.
2. Cyllid yn ymwneud â chynnal a chadw'r adeilad (gwerth isel).
3. Cyllid ychwanegol - yn gysylltiedig â llwyth gwaith, arweinyddiaeth a rheoli yn bennaf.

5.6 Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn derbyn un cyfandaliad ar gyfer pob un o'r tri maes a nodwyd ym mharagraff 5.5, ac mae'r Ysgol hefyd yn derbyn 50% ychwanegol o'r cyllid sy'n gysylltiedig ag un o'r cyfandaliadau. Cynigir y dylid ystyried tynnu'r dyraniad dau safle, a darparu'r tri chyfandaliad ar gyfer pob safle, oherwydd y rhesymau a nodwyd yng nghorff yr adroddiad hwn.

5.7 Yn seiliedig ar sefyllfa gyllido fformiwla 2019/20, byddai goblygiadau'r newid yn nhrefniadau cyllido Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn arwain at oddeutu £114,000 o arian ychwanegol.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Mae'r effaith a ragdybir ar gyllid i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn seiliedig ar ddyraniadau cyllid 2019/20 ar gyfer "cyfandaliadau" i Ysgolion.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Mae'r adroddiad yn ystyried defnydd o adnoddau'r Gyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau y caiff strategaethau allweddol eu cyflawni.

7.2 Mae cynllunio ariannol a mesurau rheoli ariannol effeithiol yn cyfrannu at Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn benodol:

Cymru lewyrchus, sydd â'r nod o wella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc ac a fydd yn eu galluogi i ennill sgiliau neu addysg bellach a chyflogaeth.

Cymru iachach; gall cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed wella eu llesiant a'u cyrhaeddiad addysgol.

Cymru fwy cyfartal; cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo’u cefndir; a

Cymru o gymunedau cydlynus; gwella ansawdd bywyd gyda chymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae rheoli ariannol effeithiol yn elfen allweddol wrth sicrhau y cyflawnir y Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

9.1 Er nad oes materion cydraddoldeb penodol wedi'u cysylltu â'r adroddiad hwn, gallai newid mewn trefniadau cyllido gynorthwyo o ran gallu'r ysgol i gynnal y cwricwlwm ehangach ar draws y ddau safle. Yn amlwg, byddai'r Ysgol yn adolygu ac yn ystyried llawer o ffactorau wrth wneud penderfyniadau, ac nid cyllid yn unig.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

10.1 Bydd y goblygiadau ariannol yn dibynnu ar y safbwynt a gefnogir.

- Byddai dim newid yn y trefniadau cyllido dau safle yn golygu na fydd canlyniadau ariannol i'r Awdurdod, er y gallai hyn effeithio ar allu'r Ysgol i ddarparu'r cwricwlwm ehangach ar draws y ddau safle.

- Byddai cefnogaeth i ddiweddaru'r trefniadau cyllido dau safle yn dod i gyfanswm o tua £114,000. Yn 2020/21, gellid ariannu hyn o gyllideb ysgolion unigol, ac felly byddai effaith fach ar draws pob ysgol gan y byddai hyn yn "bwysau" y byddai angen ei ariannu; neu gellir ariannu hyn fel eitem dwf, yn amodol ar gynnig a blaenoriaethau cyllideb yr Awdurdod yn 2020/21.

- Os gwneir penderfyniad i ôl-gyllido'r gost, cynigir y dylid ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn Rheoli Ysgolion yn Lleol fel defnydd un tro.

## 11. GOBLYGIADAU PERSONÉL

11.1 Does dim goblygiadau personél yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynnig hwn.

## 12. YMGYNGHORIADAU

12.1 Daw'r dyfyniad canlynol o gofnodion cyfarfod y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 27 Medi 2018.

**Adroddiad i ymgynghori ar y trefniadau cyllido fformiwla dau safle presennol ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni**
"Cyflwynodd JS adroddiad i ystyried y trefniadau cyllido fformiwla ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni sy'n gysylltiedig â threfniant dau safle'r ysgol. Mae amseru'r adroddiad yn gysylltiedig â'r ffaith bod pob grŵp oedran rhwng blwyddyn 7 ac 11 yn cael eu dysgu ar y ddau safle ers mis Medi 2017. Mae hyn wedi effeithio ar drefniadau a chostau gweithrediadau dydd i ddydd a gwaith rheoli safle, ynghyd â threfniadau dysgu a chyfrifoldebau rheoli. Mae'r adroddiad yn ei ystyried mewn perthynas ag ysgolion sy'n cydweithio ar o hyn o bryd drwy rannu Pennaeth yn y Fwrdeistref. Hyd yma, mae'r ysgol wedi cael ei hariannu fel un ysgol, gyda chyfandaliad dau safle ychwanegol. I gydnabod darpariaeth ar draws dau safle, ac adolygiad o niferoedd disgyblion, cynigir ystyried tynnu'r dyraniad dau safle'n ôl, a darparu'r cyfandaliadau i bob safle. Byddai hyn yn golygu tua £120,000 o gyllid ychwanegol.  Gofynnodd y fforwm a fyddai cyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Ni fydd arian ychwanegol, byddai'n dod o'r pot fformiwla sydd wedi'i rannu ar draws y ddau sector.  Argymhellodd y fforwm y dylid ystyried sefyllfaoedd amgen, ynghyd â'r cynnig, ac y byddai materion yn cael eu codi mewn ymgynghoriadau gyda phenaethiaid mewn fforymau Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd.

12.2 Roedd un ymateb a dderbyniwyd i'r e-bost a gylchredwyd i'r Holl Benaethiaid (caiff Penaethiaid eu cynrychioli ar Fforwm Cyllideb Ysgolion) yn cynghori "does dim pryderon ynghylch yr adroddiad ar hyn o bryd" (roedd yr ymholiad a wnaed am fater ar wahân sy'n gysylltiedig â'r tâl cydnabyddiaeth pan fo Pennaeth yn gyfrifol am fwy nag un ysgol).

## 13. PŴER STATUDOL

13.1 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Awdur: Jane Southcombe, Rheolwr Cyllid (Addysg, Dysgu Gydol Oes ac Ysgolion)
E-bost: southj@caerffili.gov.uk
Ymgyngoreion: Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Sue Richards, Pennaeth Gwasanaeth – Addysg, Cynllunio a Strategaeth
Sarah Ellis, Arweinydd Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol
Sarah Mutch, Rheolwr Blynyddoedd Cynnar
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion
Y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad
Steve Harris, Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Gwella Busnes ac Adran 151
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol
Y Cynghorydd Barbara Jones, Dirprwy Bennaeth ac Aelod Cabinet Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu
Anwen Cullinane, Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoldeb a'r Gymraeg)
Julie Baker, Prif Swyddog Cyllid (Ysgolion)
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl

Atodiad 1: Adroddiad Fforwm Cyllideb Ysgolion 27 Medi 2018, cylchredwyd i'r Holl

Benaethiaid 30 Tachwedd 2018.

Atodiad 2: Crynodeb o Niferoedd Disgyblion – yn unol â Llyfryn Dechrau Ysgol 2019-20